**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Bryngwran**
**Ysgol Gymuned Bryngwran**
**Bryngwran**
**Ynys Môn**
**Bryngwarn**
**LL65 3PP**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2020**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Bryngwran

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Bryngwran |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Debra Michael |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Wendy Rimmer |
| Nifer y lleoedd | 13 |
| Amrediad oedran y plant | 2 – 4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 1 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener rhwng 8.30yb a 3.00yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydi |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydi |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae Cylch Meithrin Bryngwran yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Maen' darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu angehnion Cymraeg ac angehnion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 17/03/2016 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 19/05/2020 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 4 a 5 Chwefror 2020 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br><br>Mae Cylch Meithrin Bryngwran wedi ail agor gydag arweinydd newydd, wedi iddynt fod wedi cau am gynfod byr yn 2019. Mae'r cylch wedi ymestyn ei<br>ei oriau agor, gan nawr gynnig clwb brecwast, clwb cinio a seswin yn y prynhawn. Mae'r mwyafrif o'r plant yn dod o gartrefi sy'n siarad Cymraeg. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Barn** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

R1 Datblygu yr ardal allanol er mwyn cynnig profiadau pwrpasol i'r plant i ddatblygu eu medrau yn gyson

R2 Ehangu yr adnoddau technoleg gwybodaeth er mwyn sicrhau fod y plant yn elwa o brofiadau cyson i ddatblygu eu sgiliau

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn siarad ac yn mynegi ei hun yn hyderus gan wneud penderfyniadau cadarn am yr hyn yr hoffent ei wneud. Mae bron pob plentyn yn cael eu clywed ac yn cael eu hannog i gyfathrebu yn eu dewis iaith. Er enghraifft, os mai nid Cymraeg ydyw iaith yr aelwyd, drwy sylw parhaus a chyson mae'r plant yn mynegi eu hunain yn llwyddiannus gan sicrhau fod eu hanghenion yn cael eu hadnabod ac eu diwallu.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn ymgartrefu yn dda, yn cyrraedd gyda gwên ar eu hwynebau, ac yn mynd ati'n syth i chwarae gyda'u ffrindiau. Maent yn cyfarch ei gilydd yn serchus ac yn rhannu profiadau, gan sgwrsio yn hyderus a chyfarwydd am brofiadau personol. Mae rhan fwyaf or plant yn magu ymdeimlad cryf o berthyn wrth ymfalchïo mewn rhannu yr hyn maent wedi'i gyflawni gyda'u ffrindiau.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn rhyngweithio'n dda gyda'u cyfoedion, ac yn mwynhau cwblhau tasgau diddorol. Er enghraifft, maent yn mwynhau cyd-chwarae gyda'u cyfoedion i achub 'Sioni Rhew' o'r twb oedd wedi lenwi gyda dŵr a rhew. Mae rhan fwyaf o'r plant yn rhannu adnoddau'n llwyddianus gan wir fwynhau cyd chwarae. Mae'r ystod dda o brofiadau dysgu gwerthfawr yn eu hannog i ddatblygu sgiliau cymdeithasol pwysig fel cymryd eu tro ac ystyried a chydnabod teimladau eraill. Mae bron bob un yn hyderus wrth ddyranu rolau penodol i'w cyfoedion yn y siop gwerthu dillad Gaeaf. Maent yn aros eu tro yn amyneddgar i brynu eitem o'u dewis a sicrhau fod pawb gydag eitem yr oeddent yn ei ddymuno.

Mae bron pob plentyn yn awyddus i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ac yn dyfalbarhau a chanolbwyntio am gyfnodau estynedig. Maent yn ennill ymdeimlad o gyflawniad wrth ymgymryd mewn amrywiaeth o brofiadau dysgu fel cyfri botymau amryliw ac wrth drefnu gwahanol siapau yn ôl eu nodweddion.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn datblygu medrau annibynnol yn dda. Maent yn gofalu am eu heiddo personol yn llwyddiannus, ac yn cwblhau tasgau priodol drostynt eu hunain. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf yn darparu ffrwythau eu hunain amser byrbryd, gan dynnu croen oddi ar yr oren, ac yna sicrhau eu bod yn rhoi eu sbwriel yn y twb ailgylchu priodol. Mae'r plant yn cymryd eu rôl fel 'helpwr y dydd' o ddifrif gan olchi platiau a chwpanau yn ogystal â chynorthwyo gyda thasgau yr oedolion. Mae bron pob un yn llongyfarch ei gilydd am gwblhau y tasgau hyn yn llwyddiannus.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Barn**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant oherwydd nid oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae bron pob ymarefrydd yn dilyn gweithdrefnau cadarn er mwyn sicrhau bod plant yn ddiogel ac iach. Maent wedi derbyn hyfforddiant diogelu plant priodol ac yn hyderus i ddilyn y gweithdrefnau pe byddai ganddynt bryder am unrhyw blentyn neu pe byddai honiadau yn erbyn un o'r ymarferwyr neu'r person cofrestredig. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae asesiadau risg yn gyfredol ac yn cael eu diweddaru yn rheoliadd. Yn ogystal â hyn mae asesiadau risg unigol ar gyfer gweithgareddau penodol er mwyn sicrhau fod diogelwch plant wedi ei gysidro ym mhob achlysur.

Mae'r holl ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf paediatrig ac yn cofnodi unrhyw ddamweiniau'n briodol gan sicrhau fod rhiant yn arwyddo'r cofnodion hyn. Maent yn gwneud defnydd da o weithdrefnau er mwyn atal lledaenu haint. Er enghraifft wrth annog y plant i olchi dwylo'n gyson, ac wrth ddilyn y drefn gywir pan yn newid clwt. Mae bron pob ymarferydd yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant hybu ffordd iach o fyw, gan eu cefnogi i frwsio'u dannedd a thrwy annog rhieni i ddarparu pecyn bwyd iachus. Maent yn sicrhau cyfleon buddiol i'r plant ymgymryd â gweithgareddau ymarfer corff, ac hynny tu fewn ac allan yn yr awyr iach.

Mae'r plant yn ymfalchïo pryd maent yn ennill seren ar y siart i gydnabod eu bod wedi llwyddo i ddilyn y polisi bwyta yn iach.

Mae gan yr ymarferwyr bethynas glos a chyfarwydd gyda'r plant ac maent yn sgwrsio gyda hwy yn annwyl a pharcus. Maent yn gweithio yn unol â pholisi'r lleoliad ar hybu ymddygiad postif drwy ganmol yn rheolaidd a gwobrwyo plant am eu llwyddiannau. Er enghrafft, mae'r ymarferwyr yn canmol y plant am wir ymroi i'r dasg o gadw adnoddau, a'u gwobrwyo gyda sticr ar y wal 'waw'.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio yn hynod o dda fel tîm ac yn dod i adnabod pob plentyn yn unigol, gan sicrhau eu bod yn diwallu eu hanghenion. Drwy geisio dilyn trywydd a syniadau'r plant, maent yn llwyddo i ddod i adnabod y plant yn dda. Mae'r ymarferwyr yn llwyddo i lwyr integreiddio a darparu lefel uchel o gefnogaeth ar gyfer plant gydag anghenion addysgol arbennig. Er mwyn hyrwyddo cynnydd, mae'r ymarferwyr yn cynnal adolygiadau rheolaidd gan wethredu y cynlluniau ac ymgynghori gyda rheini ac arbenigwyr.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae perthynas waith gartrefol a chynhwysol yn nodwedd arbennig o'r lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn adnabod pob plentyn yn dda ac yn sicrhau cynhaliaeth gadarn er mwyn iddynt wneud cynnydd cyson yn eu dysgu.

Yn ddiweddar, mae ymarferwyr wedi llunio trefn gynllunio effeithiol sy'n sicrhau bod pob plentyn yn datblygu eu medrau mewn ystod ddiddorol o weithgareddau. Er

enghraifft, wrth i'r plant ddatblygu eu medrau cyfathrebu a chreadigol tra'n printio calonnau ac ysgrifennu enw mewn cerdyn Santes Dwynwen. Mae'r strwythur cynllunio'n drefnus ac yn sicrhau fod pob ymarferydd yn ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn cefnogi dysgu'r plant yn effeithiol. Mae amlinelliad clir o brofiadau yn cael eu darparu gan bob ymarferydd er mwyn sicrhau parhad strwythuredig ym medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Mae'r gweithgareddau sy'n cael eu darparu i hybu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant yn datblygu'n briodol. Er enghraifft, mae plant yn defnyddio meddalwedd i greu darluniau o flodau ar y cyfrifiadur ac yn defnyddio'r til yn llwyddiannus wrth drin arian yn yr ardal chwarae rôl. Caiff medrau corfforol y plant eu datblygu'n addas, er enghraifft maent yn datblygu eu medrau modur mawr yn briodol wrth ymarfer gyrru beic ar fuarth yr ysgol gynradd.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion y cyfnod sylfaen ac yn hyrwyddo'r dysgu'n effeithiol. Mae gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolyn a gweithgareddau pen agored ble mae plentyn yn gwneud penderfyniad droso'i hun, yn datblygu'n briodol. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan y plant yn yr amgylchedd dysgu allanol yn cynnig digon o gyfleoedd iddynt ddatblygu eu medrau yn ddigon cyson.

Mae'r profiadau dysgu yn annog plant i fod yn foesgar a chwrtais at ei gilydd ac oedolion. Mae pob plentyn yn oddefgar wrth ddysgu ac yn rhannu a pharchu adnoddau'n llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn datblygu dealltwriaeth ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r plant yn dysgu am wahanol ddiwylliannau yn effeithiol wrth drafod a dathlu Cwpan Rygbi'r Byd.

Mae ymarferwyr yn holi plant yn fedrus ac yn eu hannog i ddatblygu eu gwybodaeth yn effeithiol, er enghraifft wrth drafod teimladau Sioni Rhew. Maent yn defnyddio'r Gymraeg trwy gydol y sesiynau ac yn defnyddio caneuon a hwiangerddi yn llwyddiannus er mwyn hybu defnydd o'r iaith. Maent yn trafod gwahanol themâu yn fuddiol, er enghraifft wrth i'r plant beintio gyda sudd mwyar duon wrth ddysgu am wahanol ffrwythau. O ganlyniad, mae medrau rhan fwyaf y plant yn datblygu'n gadarn.

Mae gwaith plant yn cael ei ddathlu'n llwyddiannus ar y 'wal waw', ac maent yn trafod cynnydd plant yn gyson gan sicrhau bod eu medrau yn cael eu datblygu'n fuddiol ar draws y meysydd dysgu. Yn ogystal, mae'r profiadau dysgu yn cael eu cofnodi'n drefnus yn y llyfr trysor fel cofnod o'u cyflawniadau. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn olrhain cynnydd medrau'r plant yn llwyddiannus. Mae'r deilliannau dysgu yn cysylltu'n agos gydag amcanion gweithgareddau sy'n dilyn o fewn y chwe maes dysgu. Mae hyn yn sicrhau dilyniant, ac yn hyrwyddo cynnydd cyson ym medrau'r plant.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel ar gyfer y plant. Maent yn cwblhau gwiriadau diogelwch ac yn sicrhau bod yr ardaloedd chwarae a dysgu yn lân a chroesawgar. Mae asesiadau risg yn drylwyr ac maent yn amlinellu peryglon posib a'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant. Mae ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ac mae confodion manwl i dystiolaethu fod pawb yn gyfarwydd gyda'r drefn i'w ddilyn.

Mae'r arweinwyr yn datblygu'r amgylchedd i gynnwys gweithgareddau addas mewn ardaloedd dysgu penodol. Mae'r ardaloedd chwarae yn groesawgar, ac yn ennyn sylw a diddordeb y plant. Mae digon o le iddynt symud yn rhwydd a manteisio ar yr profiadau a gynigir. Mae'r arweinwyr yn creu ymdeimlad o berthyn ymysg y plant drwy greu arddangosfeydd o'u gwaith lliwgar ar y waliau. Gwelsom arddangosfa yn ymwneud â dathliadau diweddar dydd Sant Ffolant ac mae'r plant yn ymfalchïo yn y eu llwyddiannau. Mae'r ardaloedd dysgu wedi eu trefnu'n llwyddiannus gyda'r plant yn estyn a chadw adnoddau yn fedrus gan hybu eu sgiliau annibynnol. Yn ychwangeol i'r ddwy ystafell ddosbarth mae gan y lleoliad drefniant i ddefnyddio'r neuadd bentref sydd ynghlwm. Mae'r gofod hwn yn cael ei ddefnyddio'n hyblyg; gellid ei ddefnyddio ar gyfer nifer helaeth o wahanol weithgareddau, megis ymarfer corff, neu weithgareddau sydd angen gofod mwy. Gellid hefyd gynnig cefnogaeth ychwaneol i blant yma, fel darparu ardal dawel ar gyfer sgwrsio neu gwblhau gwaith penodol.

Mae'r arweinwyr wedi ymroi i adnewyddu a phrynu nifer helaeth o adnoddau newydd addas yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio ystod briodol o adnoddau wrth hyrwyddo medrau creadigol y plant, er enghraifft wrth iddynt greu robin goch yn yr ardal bodiau bach. Mae'r adnoddau yn cael eu glanhau yn rheolaidd, gyda chofnod o'r tasgau sydd wedi eu cwblhau. Mae hyn yn sicrhau fod yr adnoddau yn parhau i fod o safon priodol ac yn ddiogel ar gyfer ddefnydd y plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd dysgu allanol yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r ardal allanol wedi ei ddatblygu'n llawn ac nid yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigon effeithiol i ddatblygu medrau'r plant yn ddigon cyson. O ganlyniad, prin yw'r cyfleoedd iddynt i ymgymryd mewn gweithgareddau sy'n cefnogi eu dysgu ac sy'n datblygu eu medrau'n llawn.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir sydd wedi ei sylfaenu ar sicrhau darpariaeth gynhwysol a chartrefol mewn amgylchedd dysgu ysgogol. Yn yr amser byr ers ei phenodiad, mae wedi cydweithio'n hynod effeithiol gyda'r ymarferwyr er mwyn datblygu'r ddarpariaeth. Mae ethos ofalgar a hapus yn cyfrannu'n gadarn at ddatblygiad cyfathrebu a lles y plant gan sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau.

Mae'n arweinydd ysbrydoledig sydd â disgwyliadau uchel o'i hun a'r holl ymarferwyr. Mae'n cefnogi ymarferwyr yn effeithiol ac yn rhoi cyfarwyddiadau clir iddynt fedru cefnogi'r plant. Mae'r tri ymarferydd yn rhannu a datblygu syniadau gyda'i gilydd yn effeithiol sy'n creu ethos weithgar a gwerthfawrogol. Mae'r person cofresredig ac aelodau'r pwyllgor yn sicrhau bod gan ymarferwyr y cymwysterau priodol. Mae sesiynau goruchwylio a gwerthuso ymarferwyr yn datblygu'n llwyddiannus er mwyn eu rheoli'n effeithiol. Mae prosesau recriwtio diogel yn cydymffurfio gyda'r gofynion statudol.

Mae'r arweinydd yn creu diwylliant agored a llwyddiannus o hunanwerthuso a gwella parhaus. Trwy gydweithio gyda swyddogion Mudiad Meithrin a'r athrawes gefnogol o'r awdurdod lleol, mae blaenoriaethau gwelliant cyfredol yn cael eu sylfaenu ar ddatblygu medrau'r plant yn effeithiol. Mae'r wybodaeth berthnasol yn cael ei osod mewn cynllun trefnus sydd yn sicrhau fod y rhanddeiliaid i gyd yn gweithredu ar y blaenoriaethu'n effeithiol. Mae hyfforddiant addas sy'n cyd-fynd â'r blaenoriethau yn dechrau cael ei ddarparu ar gyfer ymarferwyr er mwyn hyrwyddo gwahanol agweddau o'r dysgu, er enghraifft datblygiad iaith plant. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn datblygu'n effeithiol gyda nod a phwrpas addas. Erbyn hyn, mae'r datganiad o ddiben cyfredol a defnyddiol yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr i gynorthwyo'r rhieni i wneud y dewis priodol ar gyfer eu plant. Trwy bartneriaeth grêf a chynhwysol, mae arweinwyr yn sicrhau fod plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael yr un cyfleodd â'u cyfoedion i gymryd rhan ymhob gweithgaredd. Mae'r berthynas gydweithredol gyda'r rhieni yn gryfder ac mae'r cyfathrebu cyson yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddarparu amgylchedd o gydweithio. Mae arweinwyr yn darparu holiaduron pwrpasol i rieni, ac yn rhoddi ystyriaeth briodol i'w barn. Rhennir gwybodaeth gyda'r rhieni ddwy waith y flwyddyn i drafod lles a chynnydd eu plant. Mae arweinwyr yn cydweithio'n rhagweithiol gyda rhieni i drefnu digwyddiadau codi arian. O ganlyniad, mae hyn yn cyfrannu'n hael at archebu adnoddau er mwyn hyrwyddo dysgu'r plant, er enghraifft wrth brynu llyfrau newydd ac adnoddau TGCh cyfredol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 7/04/2020